

**LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR**

**Ffatri Smiths/Ingersoll Watches and Clocks, Gurnos Works, Ystradgynlais.**

**'Fatri Tic Toc'**

**Cyfwelai: VSW016 Mrs Catherine Evans**

**Dyddiad: 20: 11: 2013**

**Cyfwelydd: Catrin Stevens ar ran Archif Menywod Cymru**

*There is an English summary at the end of the Welsh text*

*Galla i gâl 'ch enw chi i ddechre?*

Catherine Evans nawr, a Catherine Thomas on i.

*A beth odd y dyddiad geni?*

24 o mis Mai, 1942.

*Reit, un o ble ych chi? Ych chi'n dod o Glydach?*

O Rhiw-fawr, Ffalde, Rhiw-fawr.

*Farm odd e, ne...?*

*Small-holding odd e, ie.*

*Ie, Beth odd 'ch rhieni'n neud?*

'N dad yn gwithio'n gwaith glo a odd 'n fam, withws 'n fam byth – catw tŷ odd 'n fam a ffarm, ife.

*Reit, wedyn odd 'da chi frodyr a chwiorydd a beth naethon nhw?*

Whâr a brawd. Odd 'n frawd yn *painter and decorator* a âth 'n whâr i witho i'r banc ar ôl dod mâs o'r ysgol ond ma blynydde – deg mlynedd - rhyngddo i a'n whâr.

*Yn iengach na chi ife?*

Ie.

*Pa ysgolion aethoch chi nawr, 'te?*

Rhiw-fawr a Ystalyfera, Ysgol Gramadeg Ystalyfera, a wedyn cwplws i'r ysgol wedyn 'tefe.

*Faint odd 'ch oedran chi 'n gadel yr ysgol?*

Undegwhech, undegsaith fel'na

*Pan benderfynoch chi adel?*

O! odd *exams* yn mynd yn... yn hela fi'n *nerves* i gyd, yntefe, a on i'n gwithio'n hunan lan i bitch a wetws 'n fam 'Os ti'n moyn, dere mäs', yntefe.

*Chi 'di 'difaru hynna o gwbl?*

Ydw.

*Ie, beth chi fod wedi neud?*

Nag wi 'n gwpod, ond dotes i'n whâr i fynd trwy'r ysgol a âth hi i'r banc wedi 'ny yntefe.

*Och chi'n meddwl falle, bo chi falle wedi colli mäs bo chi wedi gadel?*

Odw.

*Felly, beth naethoch chi pan gadawoch chi nawr yn bymtheg – unarbymtheg? Beth naethoch chi wedyn?*

Etho i i witho i'r Co-op gynta, nagon i'n lico fe.

*Siop odd honna ife?*

Ie, es i i'r Tic Toc nes bo fi'n câl plentyn. Cwplws i wedyn am byti bump mlynedd a es i i'r DVL i witho wedyn yn Morryston.

*Felly – ddechreuoch chi witho mewn siop, pam benderfynoch chi adel fan'ny? Faint fuoch chi fan'ny a pam benderfynoch chi adel?*

Byti blwyddyn. Nagon i'n lico fe.

*Beth odd yn bod?*

O, on i'n gwithio'n y siop yn y pentre a pawb yn napod chi a dim ond fi a'r *Manager* odd a odd dim cwmpni 'da chi, odd dim 'da chi, ch'mbod, ife, so wedyn ithes man'hyn i Tic Toc a odd dicon o gwmpni fan'na.

*Shwt aethoch chi i witho 'na? Och chi'n gallu jyst mynd, neu och chi'n gorffod llenwi ffurflenni neu? ... Beth odd yn digwydd?*

Na, och chi'n câl *interview*, odd dicon o jobs i gâl bryd'ny chwel, ife.

*Am beth on nhw'n whileo yn yr interview? On nhw'n whileo am ...?*

Nag wi'n gwbod achos on i'n meddwl bod yn *booking clerk*, ond odd dim jobs yn mynd ar y pryd, a gynigodd hi'r jobyn i fi witho ar ??? quarter. Wel, ddâth jobyn fel *booking clerk* ond on wedi neud ffrindie fan 'yn nawr; a wedes i 'Anghofia fe' ife. A odd shwt ffrindie teidi yn gwitho rownd i chi fan'na a sefes i fan'na wedyn nes bo fi'n mynd i gâl y plentyn hena.

### 3.13

*Och chi'n câl 'ch profi unrhyw beth yn yr interview o gwbl? Dim byd o gwbl? On nhw'm yn trio gweld shwt odd 'ch llyged chi na dim fel'na?*

Na, dim, dim. Dim ar y pryd, dim. Wi ddim yn cofio dim fel 'na ch'mbod yntefe.

*A och chi'n gorffod câl references ne rywbeth ch'mbod?*

Na, na

*Geirda wrth rywun?*

Na, dim.

*A shwt benderfynoch chi , achos ma Tic Toc lan yn Ystradgynlais – shwt benderfynoch chi fynd fan'ny yn hytrach na i'r ffatrïoedd erill oedd rownd ffor hyn, ne...?*

Nagw i'n gwbod rili – **odd pawb yn mynd i Tic Toc bryd'ny chwel (chwerthin)**

*Och chi'n nabod pobol odd yn gwitho 'na och chi?*

On, yn nabod lot odd yn gwitho na' ife. A odd y bys yn dod, codi ni, a mynd â chi i'r Tic Toc, a mynd â chi nôl a stopo o flân y tŷ.

*Dwy ar bymtheg ôd och chi yn dechre 'na, fwy neu lai? Ac odd y bys yn dod i Riw-fawr? Ne och chi'n byw yn Clydach?*

Odd, i Riw-fawr a wetyn 'ny mynd lawr, odd e'n mynd draw, troi nôl a mynd lawr wedi 'ny hibo'r cwm fel'na, a odd e'n codi pawb ar y ffordd – llond bys 'da ni.

*Bys y cwmni odd hwnna?*

Na, na – bys - fi'n credu taw James's on nhw o bechingalw. Odd contract 'da nhw bryd hynny chwel yntefe.

*Jyst rhedeg pobol nôl a mlân I'r cwmni on nhw'n neud yn y bore ..*

On nhw'n rhedeg bys *special* iddyn nhw fel'na chwel yntefe.

*A dod nôl yn y nos hefyd?*

Odd, codi ni yn y nos a mynd â ni nôl.

*Odd hi ddim yn daith bell iawn, odd hi? Faint fydde hi'n gymryd?*

Cwarter awr falle, achos hen hewlydd odd 'da ni ife. On ni'n gallu cered e os odd e'n dod i boint yntefe. Ond, na odd e'n rhwydd. Odd dim problem 'da ni fel'na o gwbl.

*Reit, ocê. Beth och chi'n neud yn y ffatri? Beth odd y ffatri'n gynhyrchu i ddechre a beth och chi'n neud yna wedyn?*

Y watchys on i'n gwitho arno a on i'n neud y *balance wheel* yn y watch. Os nag odd y *balance wheel* yn gwitho, nag odd y watch yn mynd yn iawn, ife. Gwaith mân.

*Odd e'n waith manwl iawn, odd e?*

Odd.

*Shwt och chi'n timlo ambyti gwitho 'na ch'mbod. Shwt och chi 'di – och chi'n hapus yn gwitho 'na?*

On, ar y pryd, on i yn hapus 'da nhw – pawb yn deidi, pawb yn – wel odd cwmni da na chwel yntefe.

*Beth odd agwedd pobol yn yr ardal ichi i fod yn gwitho mewn ffatri? Odd pobol yn gweud 'W, mae'n gwithio mewn ffatri ...?' Odd hwnna? Ne odd dim byd fel'na?*

Na, weles i ddim fel'na – wi'n cretu 'na beth odd jyst pawb yn neud bryd 'ny, chwel ife.

*Meddwl on i achos bo chi 'di gadel siop achos bod mwy o statws i witho mewn siop? Ne odd ddim byd fel'na? Och chi ddim yn ...?*

Na, na.

*Ych chi'n cofio'r diwrnod cynta yn y gwaith?*

Nacw, nacw! (chwerthin)

*Och chi wedi cymryd ati yn weddol hawdd, ch'mbod?*

Do, chwel, fi'n trio cofio nôl nawr, ... Och chi'n câl *training* 'da nhw och chi'n gorffod dysgu i starto – odd rhywun yn dysgu beth i neud a odd rhywun yn cadw'i lygad arnoch chi am sbel.

## 6.08

*So, pwy odd honno, person ...? Pwy odd yn neud y gwaith hynny? On nhw'n dod â rhywun mewn neu?*

Na, na, rhywun odd 'na. **A merched odd fwya – achos odd y gwaith mor fân, odd ishe llaw fach i neud e.** A wedyn odd dynion yn superviso, wedyn yntefe.

*Beth odd 'ch argraffiade cynta chi o'r lle pan ethoch chi 'na, achos odd e'n rhywbeth eitha newydd i chi siŵr o fod? Shwt och chi wedi cymryd at y lle?*

Gweld e'n fawr, ond bechingalw. Alla i ddim cofio – fi'n mynd nôl blinidde nawr. Weles i pawb, ch'mbod, och chi'n mynd miwn a odd pawb yn trio helpu chi, fi'n cofio 'na, ch'mbod, ife.

*Faint o amser och chi'n treulio i gâl 'ch hyfforddi – odd e'n amser hir ...?*

**O odd cwpwl o wthnose piwr yn mynd, odd. Odd e shwt waith manwl, ch'mbod, och chi'n gorffod câl e miwn yn reit a câl hi i anadlu – odd hi'n gorffod anadlu yn reit. Odd fel *strings* yn mynd rownd a och chi'n gorffod câl rheina i falanso – os nag odd rheina'n reit, os odd un o rheina'n picky, nag odd e'n mynd i witho. Och chi'n gorffod twlu e wedy ny ch'mbod.**

*Och chi'n sboilo lot ohonyn nhw ne – shwt odd hi'n mynd?*

(chwerthin)

***Ocê. Newidioch chi'ch gwaith o gwbwl tra bo chi 'na neu yr un gwaith buoch chi'n neud?***

**Gwples i - pan on i'n mynd i gâl y crwtyn, cydiws y fforman fi i un ochor a gorffod i fi neud gwaith repara, ch'mbod yntefe, odd e'n llai o *stress* yn hwnna 'te, a nag och chi'n gorffod gwitho mor galed. A 'nes i hwnna wedyn am gwpwl o fishodd nes bo fi'n cwpla.**

*Felly, achos bo chi'n disgwyl oedd hwnna ife?*

Ie.

*Reit. Beth odd y repara? Beth och chi'n repara?*

Wel, ch'mbod, rhywbeth odd wedi mynd yn rong ar y watchys on nhw'n dod â nhw I ni wedyn i trial 'u repara nhw. Ta beth odd wedi mynd yn rong – och chi'n gorffod ffindio beth odd wedi mynd yn rong, yn y watch 'ife.

*Wrth gâl 'u neud, cyn bo nhw'n câl 'u gwerthu 'te ife?*

O ie, cyn bo nhw'n câl 'u gwerthu.

*On nhw'n edrych ar rhain yn fanwl 'te?*

O, on. On nhw'n mynd i'r test racks wedyn, testo nhw fan'na am sbel wedyn. Odd hwnna rownd y cornel a on nhw'n windo nhw lan a gollwng nhw fan'na am wthnos a watchon nhw trw'r amser, bo nhw'n cadw'u hamser a pethach fel'na.

*Och chi'n gwitho – odd sawl rhan siwr o fod i'r ffatri odd e?*

Odd, on i ar y llofft – part llofft o'r ffatri. Watchys dynion fi'n cretu – *pocket watches* ar y llawr a wedi 'ny on ni ar y llofft.

*A watchys merched och chi'n neud ne .?*

Ie, watchys merched on i'n neud, ie.

*Rhai bach â bracelets arnyn nhw ife? So ble odd y bracelets yn dod? Ar y diwedd ife?*

Ie.

*Odd rhywun yn neud hwnna yn y ffatri?*

Nag on i ... On, wi'n cretu on nhw achos wi'n cofio gweld nhw wedi cwpla 'na. Nagw i'n gwbod pwy odd yn neud 'na. Dim ond y casyn odd 'da ni, odd dim - tu fiwn y watch. Odd dim hyd yn oed y gwyneb arno fe. Och chi'n acor e lan a och chi'n gweld y tu fiwn ife.

## 9.05

*Felly, odd yr holl beth – odd y ffatri yn cynhyrchu y watch yn gyfangwbl?*

Odd, odd e'n dod lawr yn parts i chi ife.

*Faint fydde wedi bod yn gwitho yn yr un lle â chi – yn yr adran och chi yndi? Faint – och chi mewn grwpie ch'mbod? Och chi mewn grŵp?*

Och chi mewn *lines* – fi'n credu byti pedwar deg – pum deg o ni 'na. Odd eitha bloc ch'mbod ife.

*Odd y pedwardeg-pumdeg 'na yn neud yr un gwaith â chi neu on nhw'n neud ...?*

Odd, fynycha, odd.

*Pawb yn neud r'un peth. A faint o fenywod odd yn y ffatri i gyd? Chi'n gallu cofio?*

Nagw. Odd lodad 'na – odd crowd 'na. Odd fwy o fenywod na dynion 'na – ar y part hyn. Odd part arall a wi'n credu bod fwy o ddynion lawr 'na ond nagw i'n cofio.

*Odd y dynion yn neud math gwahanol o waith, on nhw?*

On, on nhw lawr yn y gwaith trwm, yn y *machine shop* on nhw'n galw fe. So, nag on i'n acos i fan'na ch'mbod yntefe.

*Odd y nifer o bobol wedi newid o gwbl yn yr amser och chi wedi bod 'na? O hanner cant – odd e wedi mynd lan neu lawr?*

Nagw i'n cofio – yr un rhai fi'n cofio 'na trwy'r amser pan on i fan'na yntefe.

*Fydddech chi'n gweud bod 'ch gwaith wedyn yn skilled – neu beth och chi'n câl 'ch cyfrif – yn semi-skilled – neu lled fedrus, beth odd ...?*

**Ie. Achos odd gofyn bo llaw fach eitha ysgawn 'da chi i neud e ife. Odd ishe traino arno chi yntefe.**

*Och chi'n câl , yn 'ch slip pae, on nhw'n gweud rhywbeth fel'na o gwbl, ne ?*

Na, na.

*On nhw ddim yn diffinio beth och chi o gwawl? Wedyn, o safbwynt y ffatri, faint o fenywod odd wedi priodi odd 'na, odd wedi câl plant? Odd rhai o'r merched och chi'n ffrindie ...?*

O, odd, odd lot 'na.

*Yn dod nôl ar ôl câl plant?*

Odd a lot fach yn shengel 'na hefyd a rhai â plant wedi tyfu 'na.

*Felly odd 'na gymysgedd o bobol?*

Odd, achos odd sawl un â plant wedi tyfu a on nhw'n câl dechre gwitho wedi 'ny, fel – lot yn henach na fi ife.

*On nhw yn – och chi'n câl cyrsie wedyn i'ch atgoffa chi am y sgil neu och chi unwaith och chi wedi dysgu fe jyst mynd mlân â?*

Nag on nhw'n boddran chi wedyn, os och chi'n neud y gwaith yn iawn, ife.

*Och chi ddim yn gorffod mynd i ddsbarth nos na dim byd fel'na i wella pethe?*

Na, na.

*Och chi'n newydd iawn, - och chi'n ferch ifanc yn dod mewn i'r ffatri nawr. On nhw wedi chware rhyw fath o dricie arnoch chi o gwawl? Odd hwnna'n câl 'i neud?*

On, on. (chwerthin). Y tric mwya odd mynd lawr i'r offis i 'get a left-hand tweezers', - dos dim shwt beth i gâl ife. Odd pawb yn câl 'u dala 'da fe, fi'n cretu.

*Gethoch chi'ch dal?*

Do, do.

*Odd rhywbeth arall yn câl 'i neud o gwawl?*

Na, na, nagw i'n cofio. On nhw wastad yn hela dynion lawr i'r offis i – ma ishe chi ofyn am *left-hand tweezers* yntefe! A pawb yn cered lawr fel twpsod yntefe!

*Beth odd yn digwydd? On nhw'n gwbod beth odd y jôc lawr 'na'n barod on nhw?*

On, gallech chi feddwl bod shwt beth i gâl ife.

## **12.15**

*Pwy flwyddyn och chi 'di dechre 'te? Tua 1960?*

Na, 57, 58 ffordd 'na.

*58, reit, ocê. Chi'n gallu cofio faint och chi'n câl 'ch talu yr wthnos – tua faint?*

O bythti £2 fel'na – odd e ddim lot. Nagodd e'n arian mawr.

*A beth och chi'n neud – och chi 'di priodi erbyn hynny?*

Na, priodes i'n 1965 a fe gwplles i wetyn. Ie, yn 1965 prioton ni – ie. A fe gwplles i wedi 'ny yn 1967.

*Felly, och chi'n mynd gartre – och chi'n câl 'ch talu bob yr wythnos ne ?*

On, bob wthnos – a arian.

*Arian parod odd hwnna?*

Ie.

*Beth odd wedi tynnu mâs o hwnna. Odd pethe wedi tynnu mâs o hwnna cyn bo chi'n câl e?*

Shwrans a tax ife a fi'n cretu odd union yn dod mâs o fe hefyd.

*Odd dim byd yn mynd i ryw glwb 'da nhw, ne rywbeth fel'na?*

Na, Odd clwb 'da nhw, ife, fi'n cretu odd peth hefyd, odd clwb bach 'da nhw yn y bechingalw. Nagw i'n gw bod os on nhw'n talu rhywbeth ato fe. Pan dechreuon nhw on nhw'n neud partis bob blwyddyn ch'mbod, i'r plant a pethach yntefe. Wi'n cofio odd 'n anti yn gwitho 'na a wel, odd hi yn *secretary* 'na, a on i'n câl mynd fel bechingalw achos bo hi'n ...

*Achos bo chi 'di bod yn gwitho 'na ife?*

Na, un fach on i, byti saith-wyth mlwydd ôd bryd 'ny, a odd hi'n gwitho i Mr Boulton, a odd hi'n gallu câl ticet i fi a och chi'n mynd â tags fel *evacuees* arnoch chi fan 'hyn, on nhw'n câl *presents* a popeth. Odd dim lot yn gwitho 'na bryd 'ny [tua 1950] a pan ddâth fwy 'na i witho, plant tade a mame odd yn câl mynd wedi 'ny, so on i'n ffaelu mynd wedi 'ny ife. Fi'n cofio câl tŷ bach a to *cotton wool* arno fe a 'na'r unig beth fi'n cofio o'r nosweth 'na ife. Ond on i'n câl mynd 'da hi bryd 'ynny.

*So odd 'da chi deulu wedi bod yn gwitho na 'te?*

Wel, on 'n galw (h)i'n anti – whâr 'n wncwl odd (h)i. Ond on ni 'di coti drws nesa iddi gilydd a on i'n câl mynd 'da (h)I fel 'na, ch'mbod yntefe. So 'na'r unig un odd 'na'n gwitho 'da ni.

*Och chi'n mynd yn blentyn, och chi'n mynd i'r partis Nadolig 'ma?*

Saith – wyth mlwydd ôd fel'na.

*So, och chi'n câl 'ch talu unwaith yr wthnos, mewn beth? mewn amlen? Odd 'da chi rif? Shwt on nhw'n neud e? Shwt on nhw'n gwitho mâs ...?*

Fi'n cretu - odd *clocking number* 'da chi a och chi'n cloco miwn a cloco mâs a odd hwnna ar 'ch number ar yr amlen wedi 'ny a odd y pae yn dod rownd fel'na.

*Chi'n cofio 'ch clocking number?*



(chwerthin) ?? fi'n ffaelu (h)elp

## 14.58

Gethoch chi godiad cyflog o gwblw tra och chi 'na?

Do, fi'n cretu ond nagw i'n cretu odd e'n lot – cwplw swllte fi'n cretu bydde fe wedi bod.  
Arian bach odd e.

*Och chi'n byw gartre 'te bryd 'ynny – och chi'n gorffod rhoi 'ch tâl i'ch mam neu beth och  
chi'n neud ch'mbod achos odd rhai pobol yn gorffod ..?*

Rhoi popeth i Mami ife a câl arian nôl wedi 'ny. Wastod rhoi popeth ife.

*A faint och chi'n câl nôl?*

Fi'n cretu on i'n câl (h)anner coron yr wthnos da'n fam a (h)anner coron 'da nhad-cu, odd e'n  
byw 'da ni ife. So wi'n cretu on i'n lled dda.

*Och chi'n gwbod faint odd gweithwyr erill yn gâl, ch'mbod, och chi'n ymwybodol o beth odd  
pobol erill yn gâl?*

Na. Wi'n cretu odd pawb rownd i ni'n câl 'run faint yntefe. Ond odd y fformen a'r  
*chargehands* – on nhw'n câl fwy. Na wi'n cretu bod pawb jyst yn yr un pae 'na, ch'mbod, o  
faint fi'n cofio, ife.

*Ar beth fyddech chi wedi gwario 'ch arian 'te os och chi'n câl – beth och chi'n gâl, och chi'n  
gweud – faint ..?*

'N arian poced? Nagw i'n gwpod – mâs nos Satwrn, joio ar nos Satwrn ife. Nag odd neb yn  
ifed, odd dansys bryd 'ny – mynd strêt i'r dans neu i'r *pictures* yntefe. Nag on i'n prynu  
dillad odd 'n fam yn prynu'n nillad i i gyd. Odd hi'n talu popeth fel'na i fi ife. So, beth on  
i'n câl, i fi odd e, ch'mbod ife.

*Odd hi'n talu am 'ch bwyd chi – wrth bod chi'n rhoi 'ch cyflog odd hi'n talu am 'ch bwyd  
chi, mewn ffordd popeth?*

Odd popeth, odd hi'n cyfri popeth.

*Och chi'n mindio hynna neu se well 'da chi se chi ddim wedi gorffod neud e?*

Nagw i'n gwbod, nagw i'n gwbod, ond odd hi'n dda i fi ch'mbod yntefe.

*Odd 'na rhyw perks erill o witho, ne perks o gwblw o witho, yn y ffatri, ch'mbod, och chi'n  
gallu prynu pethe'n tshepach – watchys a clocs ne rywbeth?*

Och chi'n câl watch och, och chi'n gallu câl watch 'na, och chi'n gallu prynu hwnnw ife.

*Och chi 'di neud 'ny?*

Do, fi'n cretu brynes i un ch'mbod, yntefe.

*On nhw'n watchys aur, on nhw?*

*Gold plated, fi'n cretu bod un ar llofft 'da fi fan hyn. Un 'n fam 'da fi fan hyn. Af i i gâl look i chi'n y funud. Fi'n cretu bod hi still 'da fi.*

*So odd rhan fwy a bobol yn prynu watch ne gloc 'na wrth bo chi'n câl - Och chi'n gallu mynd unrhyw bryd ne jyst Nadolig? Ne beth odd yn digwydd?*

Na, chi'n gallu mynd ryw bryd fi'n cretu ife – fel fi'n cofio - achos odd offis a och chi'n gallu mynd lawr i'r offis i byrnu 'ddi yntefe a och chi'n pico'r un och chi'n moyn.

*A och chi'n câl tamed bach bant arni wedyn?*

Och, nagon nhw'n brud (ddrud) pyrnu chwel nagon nhw? Nagw i'n cretu bod nhw'n cadw llawer o rai *gold* 'na. Brynes i ddim un *gold* – on nhw rhy brud.

*Och chi'n aelod o undeb llafur wedyn? Odd union 'na?*

Odd, odd *union* 'na odd. Do, Fi'n cretu streicon ni unwaith.

*Beth odd enw'r undeb och chi'n perthyn iddi?*

Nagw i'n cofio (sibrwd) nag wi'n cofio.

*Ddim yn cofio – odd pob un yn aelode? Odd hwnna'n rhan – cymryd yn ganiataol bo chi'n mynd i ymaelodi on nhw, neu on nhw'n dod i ofyn ne beth?*

Na, fi'n credu odd pawb yn, nagw i'n cofio neb ddim yn, ife, os nag odd parte erill dim yn, ife. **Nag w i'n cofio lot o drwbwl na o gwbl – na un peth amdano fe – odd dim iaith na dim yndi. Mae rhai o nhw - ma lot o iaith mewn ffactris. Odd dim fel'na 'na. A pawb yn friendly ch'mbod tife.**

## **18.18**

*Och chi'n sôn nawr bo chi'n cofio un streic – chi'n cofio beth odd honno, chi'n cofio?*

Nagw i'n cofio beth odd (h)i. Ishe rhacor o arian?

*Och chi'n meddwl bod y gweithwyr yn câl 'u trin yn deg gan y meistri? A gan bobol, och chi'n gweud nawr oedd na bobol 'na ..?*

Ble on i, on. On nhw'n rhai da ch'mbod ife.

*Pwy odd yng ngofal chi? Pwy odd yn – fel y person cynta, ch'mbod, drostoch chi mewn ffordd?*

Y chargehand on nhw'n galw fe.

*Reit, dynion on nhw wedyn?*

**Dynion on nhw, ie. Dim ond un fenyw fi'n cofio yn *chargehand*, a un o Ystradgynlias o Aber-craf, odd y rest, dynion fi'n cofio i gyd. Odd dou o Ystalyfera 'da ni a wedi 'ny odd fforman wedi 'ny. Nag och chi'n neud lot â'r fforman achos 'da'r chargehands och chi'n siarad 'da fwya – os och chi ishe rywbeth, atyn nhw och chi'n mynd i ofyn am bopeth, yntefe.**

*Felly nhw odd yn gweud faint och chi fod i neud neu beth och chi fod i neud ?*

Os se chi'n bored (?) neu os och chi'n neud rhywbeth yn rong a pethach fel'na yntefe. Na odd dou, na tri 'da ni fi'n cretu ife. Odd tri 'da ni.

*Odd y fenyw – odd hi'n chargehand yn ble och chi?*

Na, ar y *test racks* odd hi, ar y *test racks*.

***Byddech chi wedi lico bod yn chargehand? Fydde hi wedi bod yn bosibl i chi fod yn chargehand?***

**Nagw i'n cretu odd e bryd 'ny, Fi'n cretu mai dynion odd yn mynd fwya, odd dim *equality* bryd hynny fi ddim yn cretu, odd y jobs gore yn mynd i'r dynion.**

*A wedyn odd y fformen uwch 'u penne nhw on nhw? Faint o fformen fydde yn ych adran chi?*

Fi'n cretu mai un ar bob *section* odd e. Ta pwy bart och chi un fforman odd drosto fe a dou ne dri chargehand dependo ar seis y *section* chwel.

*A dynion odd rheiny hefyd?*

Ie. Bob lle.

*Och chi'n gweld y perchnogion o gwbl? Odd 'da chi siŵr o fod rheolwr, odd e yn gofalu am bawb? Och chi'n gweld y rheolwr, y, Managing Director – odd e'n dod rownd o gwbl?*

Mr Boulton, on. Mr Boulton odd e, a Mr Hopkins. On nhw'n cered rownd, ife, ond nagon nhw'n boddran lot 'da ni, jyst siarad â'r fformen on nhw fwya, ch'mbod ife.

*Fyddden nhw ddim yn nabod chi?*

O na. Na.

*A beth am y perchnogion? Pwy odd y perchnogion? Ch'mbod – odd hwnna ddim yn rhywbeth och chi'n gwbl?*

Na, na.

## **21.04**

*Buoch chi ddim yn swyddog undeb do fe 'ch hunan o gwbl?*

Naddo.

*Odd yr arian o'r pae, arian odd yn mynd i'r undeb, achos wi'n credu bod nhw'n mynd â peth arian i'r undeb ...*

Odd, odd.

*Odd e'n mynd i'r Blaid Lafur, och chi'n ymwybodol o hynny ne och chi..?*

Fi'n cretu ar y pryd nagon i'n neud sylw ch'mbod – och chi rhy ifanc i feddwl am beth fel'na.

*Reit nawrte, o safbwynt 'ch gwaith chi, beth och chi'n gwisgo i witho?*

Och chi'n gwisgo *overall*, och chi'n prynu rhyw un, odd dim iwniform na dim 'da nhw, pawb i ddod â beth on nhw'n moyn a jyst gwisgo fe ch'mbod yntefe.

*Chi ddim yn cofio rhyw gown yn cau tu ôl fel theatre gown o gwbwl..?*

Na

*Na, dim byd fel'na?*

Na, gallech chi gâl yr un fwya ffysi och chi'n moyn ne'r un fwya plaen och chi'n moyn, ife.

*A chi odd yn gorffod golchi rheina?*

Ie, ie.

*Odd hwnna'n waith? On nhw'n mynd yn frwnt iawn?*

Na. Neilon ne rwbeth on nhw. On nhw ddicon rhwydd i olchi a smwddo eniwê.

*Och chi'n gorffod gwisgo rhywbeth dros 'ch gwallt?*

Nag on, na.

*A'ch trâd?*

Na, na.

*A menyg am y dwylo?*

Na, dim byd fel'na.

*Odd 'ch dwylo'n rhydd wrth gwrs i witho.*

Odd.

*A beth odd y tŵls, pa offer odd 'da chi?*

*Eyeglass a tweezers* odd fwya, fi'n cretu, a fel *blower* bach ch'mbod i whythu dwst mâs o'r watch, rhag ofon se dwst yn mynd iddi, achos i whythu'r dwst odd hwnna mâs wedi 'ny.

*Shwt odd dwst, achos, siŵr 'da fi, mewn ffatri, bod 'na ddwst odd e? Shwt on nhw'n cadw hwnna mâs?*

**O, odd lle glân 'na. Odd cleaners yn dod rownd bob dydd i gl'nau popeth ch'mbod yntefe, on nhw'n gl'nau silff ffenest, popeth, bob dydd.**

*Felly odd yn rhaid i'r lle fod yn lân iawn?*

**Odd e yn lân, odd.**

*A pa fath o ole odd 'na? Odd e'n ole naturiol?*

Odd gole *fluorescent* mawr 'na ch'mbod yntefe. A gole 'da chi ar y ddesg wedi 'ny.

*Och chi'n iste? Iste och chi'n neud trwy'r dydd?*

Ie.

*A och chi'n defnyddio'r eyeglass 'ma? A wedyn och chi'n pwysu drosto, och chi?*

Ie, yn neud y watch ife.

*Odd hwnna tipyn o straen siŵr o fod – ar y llyged a?*

**Ar y start, odd, odd e ar y start. Och chi'n ffaelu roi fe miwn i starto, ond odd e'n dod, nagoch chi'n 'styried; nag och chi'n gallu gwisgo glasses achos on nhw'n chipo ar y glass off 'ch llygad chi, chi'n gweld, yntefe, so ... ond nagw i'n cofio nhw'n strict 'na, och chi'n codi lan i'r toilet a pethach fel'na. Odd dim ishe i chi ofyn i chi gâl mynd a pethach yntefe.**

*Odd gwres? Odd hi'n gynnes 'na?*

Odd, odd.

*Beth am - shwt on nhw'n cynhesu lle 'te?*

Fi'n credu odd pipe mawr 'da nhw ch'mbod yntefe. A digon o *lass* reit rownd – odd y *glass* yn twymo'r lle wedi 'ny ife.

## **23.56**

*Odd hi'n mynd yn dwym iawn 'na?*

Odd hi'n gallu bod yn dwym 'na, odd. Yn yr haf ch'mbod ife.

*Och chi'n câl agor y ffenestri?*

Na, nag odd y ffenestri'n gallu acor.

*Nagon nhw?*

Nagw i'n cofio gallu acor nhw. Dim ble on i chwel yntefe.

*Achos dwst falle ife ne... ?*

Na'r *point* chwel ife.

*O safbwynt yr – och chi'n gweud mai chi odd yn prynu'ch iwnifform 'ch hunan 'te ife? Océ. A beth ambyti'r offer? Och chi'n prynu rheina neu och chi'n câl rheina?*

On i'n câl rheina 'da nhw – on nhw'n rhoi popeth fel'na.

*Odd y gwaith yn beryglus o gwbwl?*

Na.

*Odd hi'n swnllyd 'na?*

Na, yn dawel le on i. Dim *machines* o gwbwl 'te – popeth yn dawel.

*Chi'n cofio unrhyw un yn câl anaf o gwbwl ne niwed o gwbwl?*

Na, dim le on i.

*Achos heddi ch'mbod, ma cymint o reole iechyd a diogelwch, - och chi'n ymwybodol o bethe fel 'na ne odd neb yn gweud dim ambyti 'ny?*

Na, dim ble on i. Ond odd dim danjerys lle on i, chwel, ife.

*Os odd hi'n dawel yntefe – och chi'n câl siarad wrth 'ch gwaith?*

On.

***Och chi'n câl siarad och chi?***

**Lot o sbri. Lot o laffs 'na ife.**

***Och chi'n canu o gwbwl?***

**On, on nhw'n canu**

***Pwy odd yn canu ch'mbod? Pwy odd yn trefnu – odd ..?***

**Falle bydde un ferch yn canu a bydde pawb yn canu 'da (h)i yntefe. Ond odd rhai comedians 'na. Bydde rhywun yn paso hibo neu rywbeth fel'na bydden nhw'n gweud rhywbeth yn gomical – na, odd hi'n hapus 'na chwel yntefe.**

*Ych chi'n cofio beth on nhw'n ganu o gwbwl?*

Nagw, ond wi'n cofio un ne ddwy yn dechre canu ch'mbod yntefe.

*Odd dim miwsig yn y cefndir, ch'mbod 'Music while you work' na dim byd fel'ny?*

Na, dim byd fel'ny

*A on nhw'n barod i chi i siarad – on nhw ddim yn trio'ch stopo chi – a canolbwyntio ar 'ch gwaith?*

On nhw ddim 'di trial neud hyn'na.

*Bydde fe ddim 'di gwithio na fydde fe?*

Na fydde.

*Beth am tai bach wedyn? Odd tai bach 'na?*

Odd, dicon.

*Och chi'n câl mynd – dim ..?*

**Dim stopo chi a och chi'n mynd fan'na a och chi'n câl pum munud bach o *chat* fan 'na ife. On nhw'n watcho chi'n mynd a dod fi'n cretu. Tra bo chi'n neud 'ch gwaith, nagon nhw ar 'ch pen chi ch'mbod ife. Wi'n cretu sech chi'n tsheto t'md bach bydden nhw'n watchan chi fwy yntefe.**

*Och chi'n gorffod cynhyrchu rhyw nifer o ... och chi'n gorffod neud hyn a hyn ?*

On i'n gorffod neud *so much*, on.

*Faint, chi'n cofio faint och chi'n gorffod neud?*

Na, on nhw'n erfyn i chi neud, gwedwch, wi ddim yn gwpod, gwedwch ucen, a boch chi'n neud yr ucen yn iawn ife. Sech chi'n neud fwy odd e'n bechingalw ... ond os och chi'n neud llai bob dydd fi'n cretu bydden nhw'n gweud wrthoch chi, yntefe. Ond nagw i'n cofio beth odd ...

*Odd e'n lot, ch'mbod neu odd e ..?*

Na, odd e'n iawn.

*Faint o amser odd e'n gymryd i chi roid y balans mewn 'te ne'r ...?*

O, cwpwl o funude – y fwy och chi'n neud e, odd e'n dod fwy rwydd i chi ife. Ambell waith och chi'n galw'r watch yn bopeth achos odd e'n pallu gwitho ife, ond pryd arall wedi 'ny odd e'n dod fel'na ife.

*A odd e ddim yn effeithio dim ar 'ch clyw chi na dim byd fel'na, na'ch golwg chi? Odd e wedi effeithio ar 'ch golwg chi – y ffaith bod chi ...?*

**Ydy, ma'r llygad hyn yn wannach yntefe.**

***Y llygad lle'r odd y gwydr ife?***

A gwitho'n acos drwy'r amser chwel, yntefe.

*Chi ddim wedi meddwl mynd am flaen- iawndal am neud 'na?*

Na, ma gormod o flynydde wedi mynd.

*Am beth fyddech chi wedi bod yn siarad, se chi 'di bod yn siarad nawr fel menywod 'da'ch gilydd? Och chi'n siarad mewn grwpie bach ne dros y lle?*

**Wel, ambell waith, odd dou section ife, fyddech chi'n shouto ar draws chwel ife. Gofyn ble chi 'di bod nos Satwrn, beth och chi 'di bod yn neud trwy'r weekend, neu os on nhw'n rhedeg trip – pawb yn mynd ar y trip a pethach fel'na ife, a wedi 'ny shwt âth (h)i a os odd rhywun yn gweud bod e wedi bod yn rhywle, pawb yn holi ddi ch'mbod yntefe. Odd e fel teulu – pawb yn siarad 'da'i gilydd ch'mbod, ife.**

**27. 58**

*A pwy iaith fyddech chi wedi siarad?*

**Y ddwy iaith – Cwmrâg a Sisneg. Odd lot o Sisneg 'na.**

*Odd e?*

Odd. Lot o Sisneg.

*Ond odd lot o Gymrag na hefyd odd e?*

Odd. Ond mâs ...

*Beth am y canu – ym mha iaith fyddech chi wedi canu 'te?*

**Fi'n cretu taw Sisneg –on nhw'n canu, on nhw'n canu fwy o popstars, fi'n cretu, trio cofio nôl ch'mbod yntefe. On nhw'n canu pethach odd yn mynd ar y pryd fel. Ond ma Ystrad yn Sisnigedd lot chwel, Ystalyfera yn fwy Cwmrâg fi'n cretu a lan y cwm, Cwm Twrch a Cwmllynfell – fwy Cwmrâg ife.**

*Och chi'n câl smoco 'na? Oedd 'na ferched yn ysmygu? Ac os on nhw, ble on nhw'n câl ysmygu? Fydden nhw wedi câl ysmygu wrth eu gwaith?*

Na, fi'n cretu on nhw'n neud e'n y toilets. Nagw i'n cofio nhw'n neud e ar y ddesg. Na, fi'n cretu ma'n y toilets on nhw'n mynd i gâl smygu yntefe.

*On nhw ddim yn stopo nhw rhag smygu fan'ny?*

Na, na.

*Achos odd ddim rheole fel sydd heddi 'ta?*

Dim nawr, na. Na'r peth gore ddoth miwn yntefe.

*Sut wedyn, och chi'n gweud odd 'na ddynion, rhai dynion, yn gwitho, reit, wedyn odd y menywod, sut on nhw'n trin y dynion? On nhw'n tynnu'u côs nhw?*

**Poeni nhw lot, on.**



*Shwt on nhw'n neud 'ny?*

**Gweud pethach twp iddyn nhw, ch'mbod, a neud pethach twp ife. Ond on nhw'n cymeryd e'n dda, weda i 'na. On nhw wastad mewn gw d hiwmor amdano fe ife.**

*Beth on nhw'n neud iddyn nhw 'te?*

**Sain cofio (sibrwd), fi'n cretu bo nhw'n poeni nhw ch'mbod, fel – odd un neu ddwy gomedian yn dod miwn a weindo nhw lan ond wi'n ffaelu cofio – Cofio bod lot o wherthin 'na ch'mbod ife.**

*On nhw ddim yn defnyddio iaith anwedus te, on nhw?*

Na, dim o gwbl, dim le on i.

*Och chi'n clywed am 'na mewn llefydd erill ne?*

Falle lawr le odd y dynion, fwy o ddynion yn gwitho. Jyst cered trwyddo fan'na on ni achos odd dim 'da ni i neud â fe chwel ife.

*Pam och chi'n cerdded trwyddo ble odd y dynion, on nhw'n tynnu 'ch côs chi, gweiddi ar 'ch ôl chi?*

Na, na.

*Dim byd fel 'na? Wedyn och chi 'di priodi? Och chi'n briod pan och chi'n gwitho 'na?*

On.

*Reit, shwt odd 'ch gŵr yn timlo am y gwaith och chi'n neud? Odd e'n ...?*

Na, odd e'n iawn.

*Odd e'n hapus amdano fe. Wedyn, yn y cyfnod hynny, shwt och chi'n edrych ar 'ch arian chi ch'mbod - pay packet chi? Och chi'n edrych arno fe fel rhywbeth extra at y teulu neu rywbeth oedd yn rhan o'r, ch'mbod?*

Ar ôl prioti? Cyn prioti?

*Sori? Na, ar ôl priodi.*

Ar ôl prioti? Na, on ni'n dau yn doti fe miwn 'dan gilydd a un banc odd 'da ni.

*Ond och chi ddim yn meddwl am 'ch un chi – 'ch cyflog chi - bod cyflog 'ch gŵr yn bwysicach na... ?*

Na, bod e'n fwy na fi? Odd e'n well off achos e'n fwy na fi (chwerthin).

*Odd 'ch gŵr, gan bo chi'ch dau yn gwitho, och chi'n rhannu gwaith tŷ wedyn hefyd?*

On, odd e'n dda 'da fi, ody.

*Ma hynna'n eitha anarferol cofiwch on'd yw e?*

Na, mae fe wedi helpu lot o fi yn y tŷ.

### **31.04**

*Beth odd 'ch orie chi'n y gwaith? Ych chi'n gallu cofio pryd och chi'n dechre a pryd och chi'n gorffen?*

Fi'n cretu on i'n dechre 'na am hanner awr weti saith a on i'n cwpla sha cwarter i bedwar – hanner awr wedi tri – cwarter i bedwar.

*Bob dydd o'r wthnos, neu pa ddiwrnode?*

Bob dydd.

*Penwythnos hefyd?*

Nagon i'n gwithio ar dydd Satwrn o gwbl. Ond rhyw gof 'da fi acha dydd Gwener geson ni gwpla tmed bach yn gynt acha dydd Gwener, ar y diwedd. Ma rhyw gof 'da fi am hynna.

